



Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori

Diddymu darpariaethau Rheoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989 a Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994

Dyddiad cyhoeddi: 14 Mehefin 2017
Camau i'wcymryd: Ymatebion erbyn 26 Gorffennaf 2017

**Diddymu darpariaethau Rheoliadau
Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac
Uwch) 1989 a Rheoliadau Addysg
(Anghenion Addysgol Arbennig)
(Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994**

Trosolwg	Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am eich barn ar ddiddymu'r Rheoliadau sy'n ymwneud â chaniatáu'r defnydd o ddeunyddiau ïoneiddio ymbelydrol mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac uwch. Mae hefyd yn gofyn am sylwadau ar ddiddymu'r darpariaethau yn ymwneud ag archwilio hosteli preswyl i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig.
Sut i ymateb	Dylech e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod erbyn 26 Gorffennaf 2017 fan hwyraf.
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: llyw.cymru/ymgynghoriadau
Manylion cyswllt	Rhagor o wybodaeth: Y Gangen Gyllid ac Archwilio Y Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: EducationBusinessPlanning&Governance@cymru.gsi.gov.uk

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Crynodeb

Cyflwyniad

Hoffai'r ddogfen ymgynghori hon gael eich barn ar y canlynol:

- diddymu'r Rheoliadau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion a gynhelir, ysgolion nas cynhelir a sefydliadau addysg bellach wneud cais i Weinidogion Cymru am ganiatâd i ddefnyddio deunyddiau ymbelydredd ïoneiddio;
- diddymu'r darpariaethau yn y Rheoliadau sy'n ymwneud ag archwilio hosteli preswyl i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

Cefndir

Mae Rheoliad 7 o Reoliadau Addysg (Ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch) 1989 a pharagraff 7 o Atodlen 1 o Reoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol a sefydliadau addysg bellach gael sêl bendith Gweinidogion Cymru i gaffael a defnyddio deunyddiau ymbelydredd ïoneiddio.

Mae ysgolion yn gofyn am ganiatâd trwy ddefnyddio ffurflen IR(C) Llywodraeth Cymru, a gyflwynir trwy law eu hawdurdod lleol i'r Gyfarwyddiaeth Addysg. Yna, byddai'r ffurflen yn cael ei gwerthuso gan Brif Gynghorydd Gwyddonol Amgylcheddol Llywodraeth Cymru o safbwynt y risg dan sylw, a'i gwerthuso wedyn gan Estyn parthed gofynion y cwricwlwm.

Mae Rheoliadau 9 o Reoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989 yn darparu ar gyfer archwilio hosteli preswyl i ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig wedi'u darparu gan yr awdurdod lleol.

Pam rydyn ni angen diddymu'r gofyniad i ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac uwch ofyn am ganiatâd Gweinidogion Cymru i gael defnyddio deunyddiau ymbelydrol?

Mae gan Lywodraeth Cymru sawl rheswm dros ystyried diddymu'r gofyniad, sef:

- Roedd ymgynghoriad blaenorol a gynhaliwyd yn 2010/11, ar adolygu sawl system ganiatâd, gan gynnwys caniatâd gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio deunyddiau ymbelydredd ïoneiddio mewn ysgolion, yn dangos nad oedd unrhyw awydd i gadw'r gofyniad hwn.
- Wrth adolygu effeithiolrwydd a rheidrwydd y system ganiatâd, cysylltwyd ag awdurdodau lleol Cymru a gwelwyd nad oedd rhai'n ymwybodol o'r angen i gael caniatâd gan Lywodraeth Cymru.
- Does dim gwerth i'r system ganiatâd gan fod ysgolion yn cael caniatâd ar gyfer deunyddiau ymbelydrol sy'n cael eu rheoli trwy ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch y DU sy'n fwy disgrifiadol.
- Mae'r system ganiatâd yn gymhleth a diangen ac yn faich i bawb sy'n gysylltiedig â hi.
- Ychydig iawn o geisiadau a wnaed i Lywodraeth Cymru. Cyflwynwyd 19 o geisiadau rhwng 2008 a 2014, a dim ond dau gais rhwng 2014 a nawr.

- Ar y pryd, nododd Prif Gynghorydd Gwyddonol Amgylcheddol Llywodraeth Cymru ei bod hi'n anodd barnu teilyngdod ceisiadau ac roedd cynghorydd Estyn yn gryf o blaid lleihau'r baich biwrocratiaeth o ran rhoi caniatâd ynghylch ymbelydredd.
- Nid yw swydd Prif Gynghorydd Gwyddonol Amgylcheddol Cymru yn bodoli mwyach, ac nid oes gan Lywodraeth Cymru y staff priodol i ystyried unrhyw geisiadau.
- Mae rheoliadau tebyg yn Lloegr (*The Education (Hazardous Equipment and Materials in Schools) (Removal of Restrictions on Use) (England) Regulations 2008*) wedi'u diddymu yn Lloegr, a chanllawiau'r Administrative Memorandum 1/92 wedi'u disodli gan ganllawiau *Consortium of Local Authorities for the Provision of Science Services* (CLEAPSS), sydd hefyd wedi'u mabwysiadu yng Nghymru.

Pam rydym ni eisiau diddymu'r darpariaethau sy'n ymwneud ag archwilio hosteli preswyl i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig?

Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud ag archwilio hosteli preswyl i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn rhan o Reoliadau Addysg (Ysgolion ac Addysg Bellach ac Uwch) 1989. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n fewnol â swyddogion polisi anghenion addysgol arbennig, a hefyd gydag Estyn ac AGGCC er mwyn holi a oes defnydd yn cael ei wneud o'r ddarpariaeth hon. Dywedodd yr holl bartïon nad oes unrhyw hostel preswyl i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yng Nghymru ar hyn o bryd, a dim cynlluniau i gyflwyno unrhyw un, felly does dim angen y ddarpariaeth hon. Mae'r ddarpariaeth wedi'i diddymu yn Lloegr hefyd.

